



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithwyr,

10/11/2022

Fis diwethaf mynychais ddau ddigwyddiad gwych a oedd yn cydnabod ac yn dathlu pobl o fewn y gymuned sy'n gwneud pethau rhagorol i wneud gwahaniaeth go iawn.

Cefais wahoddiad i fynd i'r Ddawns Fasgiau Calan Gaeaf er budd Apêl Prop o fewn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Ngwesty'r Mercure Holland House ac roedd pawb yn edrych yn hyfryd ar y noson yn eu gwisgoedd gwych. Rwy'n falch o ddweud ei fod yn llwyddiant ysgubol, a helpodd i godi ymwybyddiaeth o anghenion y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth adsefydlu wedi anafiadau i'r ymennydd, yn ogystal â chodi arian y mae mawr ei angen i ddarparu cymorth ychwanegol i gleifion a'u teuluoedd a'r tîm yn y Ganolfan Niwroadsefydlu yn YALL. Roedd yn gyfle gwych i ddiolch i bawb sy'n darparu gofal a thriniaeth, yn ogystal â chyfarfod a diolch i nifer o aelodau ysbrydoledig y tîm a'r gymuned sydd, ochr yn ochr â'n swyddogion codi arian, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gynifer o bobl drwy eu gwaith i gefnogi'r apêl elusennol. Llongyfarchiadau i dîm yr Elusen Iechyd ac aelodau gwirfoddol y Pwyllgor Apêl Prop am noson wych; fe fydda i'n edrych ymlaen at yr un nesaf.

Braint fawr hefyd oedd cael bod yn westai yng Ngwobrau Heddlu De Cymru yn dathlu gwaith arbennig cydweithwyr o'r gymuned

blismona sy'n cefnogi'r Bwrdd Iechyd a'n cymuned. Gwnaethom glywed hanesion ysbrydoledig am ddewrder, creadigrwydd ac ymroddiad a rhoddwyd cydnabyddiaeth i'r rhai a oedd wedi mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau ar gyfer Heddlu De Cymru a'r gymuned. Llongyfarchiadau i bawb a gafodd eu henwebu ac wrth gwrs yr enillwyr. Roedd yn wych cael bod yn rhan o'ch noson a diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud i gefnogi tîm CAF.

Ddydd Gwener, cefais gwmni'r tîm Diogelwch Cleifion i drafod diogelwch meddyginiaethau yn y sesiwn Holi Suzanne. Roedd hyn yn nodi dechrau Wythnos Diogelwch Meddyginiaethau a Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd, a gynhelir rhwng 7 a 13 Tachwedd. Bydd thema diogelwch meddyginiaethau wahanol i bob un dydd yn ystod yr wythnos, gan godi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol. Mae canolbwyntio ar ddiogelwch meddyginiaethau yn un o'r ffyrdd y gallwn "systemu" gofal diogel i gleifion wrth i ni geisio lleihau achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a niwed y gellir ei osgoi. Maent yn wersi pwysig a defnyddiol i bawb eu dysgu felly cofiwch gymryd rhan. I gael gwybod mwy am yr Wythnos Diogelwch Meddyginiaethau a Diwrnod Diogelwch Cleifion y Byd, gall cydweithwyr edrych ar y [dudalen SharePoint bwrpasol](#).

Dros yr wythnosau nesaf, mae'r Tîm

Gweithrediadau, dan arweiniad Paul Bostock, Prif Swyddog Gweithredu, yn cynnal cyfres o sioeau teithiol wyneb yn wyneb ar draws safleoedd i siarad yn agored â chydweithwyr am Gynllun Gaeaf y Bwrdd Iechyd gan gynnwys yr heriau, pa waith sy'n cael ei wneud i reoli'r galw, pa gymorth lles ac adnoddau sydd ar gael i gydweithwyr a'r hyn y gallwn oll ei wneud i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gofal amserol i gleifion. Byddwn yn annog pawb i fynychu'r sioeau teithiol hyn os gallwch chi. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae a bydd y sioeau teithiol yn sesiynau defnyddiol i drafod a rhannu syniadau i'n cefnogi ni i gyd. Mae dyddiadau a lleoliadau i'w gweld ar [SharePoint neu'r ap StaffConnect](#).

Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau gaeaf diogel yw cael eich brechu rhag COVID-19 a'r fflw os ydych yn gymwys ac wedi derbyn gwahoddiad. Mae'r rhaglen frechu ar ei hanterth ar hyn o bryd ond rydym yn gweld nifer fawr o bobl nad ydynt yn dod i'w hapwyntiadau.

Os ydych wedi methu eich apwyntiad, peidiwch ag oedi rhag aildrefnu drwy gysylltu â'r ganolfan trefnu apwyntiadau yn cvuhb. Massimms@wales.nhs.uk neu ffoniwch y llinell trefnu apwyntiadau ar 02921 841234.

Os ydych yn gymwys i gael brechiad atgyfnerthu COVID-19 dylech fod wedi derbyn gwahoddiad yn uniongyrchol, ond os nad ydych wedi'i dderbyn, gallwch hefyd gysylltu â'r ganolfan trefnu apwyntiadau yn cvuhb. Massimms@wales.nhs.uk neu ffonio 02921 841234 i drefnu apwyntiad.

Os ydych wedi derbyn apwyntiad ac angen aildrefnu neu ganslo eich brechiad COVID-19 gallwch lenwi'r ffurflen ar-lein hon.

Os ydych chi'n aelod rheng flaen o dimau


iechyd a gofal cymdeithasol ac nad ydych wedi derbyn eich brechiad atgyfnerthu COVID-19 eto, gallwch [lenwi'r ffurflen ar-lein](#) a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi.

Diolch eto i chi i gyd, cydweithwyr, partneriaid a dinasyddion am bopeth rydych chi'n ei wneud o wythnos i wythnos i gefnogi eich gilydd, ac am eich ymroddiad a'ch tosturi, rydw i wir yn ei werthfawrogi.

Tîm Darlunio Meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dathlu llwyddiant yng Ngwobrau *The Institute of Medical Illustrators*

Mae ein cydweithwyr yn yr adran Darlunio

Meddygol wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto yng Ngwobrau *The Institute of Medical Illustrators*



eleni. Llwyddodd yr adran i ennill deuddeg gwobr efydd, pedair gwobr arian, ac enillwyd dwy wobr aur gan Jess Leonard am Spontaneous Hyphema a Laura Mullen ar gyfer Cystic Tumour.

Enillwyd y gwobrau arian gan Lauren Price, Hannah Wilce a Nicola Kelley-Carrick ac enillwyr y gwobrau Efydd oedd



Gemma Meredith, Lauren Price, Matthew Stenson, Anna Hammer, Khrist Swann, Hannah Wilce, Nicola Kelley-Carrick a Jess Leonard. Da iawn i'r tîm Darlunio Meddygol am y casgliad trawiadol hwn o wobrau!

Rhaglen Young England and Wales 2022

Cynhaliwyd Rhaglen *Young England and Wales* Hydref 2022 yng Nghaerhirfryn rhwng 11 a 14 Hydref, lle cymerodd 28 o gynrychiolwyr ran, gan gynnwys dau gydweithiwr o Fwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro. Roedd yn rhaid i bob cynrychiolydd gyflwyno papur chwe munud yn dadlau'r achos ar bwnc o 'ddiddordeb presennol sy'n destun dadlau'. Nod y rhaglen yw datblygu sgiliau cyfathrebu ac ehangu gorwelion pobl yng nghymau cynnar eu bywydau gwaith.

Cynigiodd Luke Cordrey, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, y dylid annog pobl ifanc i siarad am sut maent yn teimlo o oedran ifanc. Roedd yr achos a gyflwynwyd yn nodi pan fydd pobl ifanc yn dod yn oedolion ac yn wynebu heriau anodd, y dylent wybod sut i alw ar eraill am gymorth. Dadleuodd Luke fod angen i ni ddechrau siarad yn gynt, gan ddechrau sgysiau ac atal pobl rhag teimlo ar wahân ac yn unig. Drwy wneud hyn efallai y gallwn ddechrau lleihau cyfraddau hunanladdiad, yn enwedig ymhlith dynion ifanc, sy'n aml yn ei chael yn anodd iawn cyfleu eu teimladau.

Gwnaeth Hunar Duski, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gymryd rhan hefyd. Cyfeiriodd Hunar at y ffaith fod gofal iechyd yn hawl ddynol sylfaenol, ochr yn ochr â bwyd, lloches a rhyddid, ac y dylai barhau i fod yn rhad ac am ddim i fanteisio arno. Mae'n credu,

er gwaethaf pwysau presennol a heriau staffio, bod y GIG yn dal i fod yn un o'r systemau gofal iechyd gorau yn y byd. I gloi, dywedodd Hunar fod darparu gofal iechyd hygyrch i bobl yn arwain at effeithiau cadarnhaol hirdymor.

Enillodd Luke Cordrey yr 'Her Grŵp Orau', gyda'r beirniad yn cyfeirio at "gyflwyniad bywiog ac ymchwilgar" Luke, gan ddweud fod y cyflwyniad yn "ddeallus ac yn procio'r meddwl."

Rhaglen wych sy'n helpu i feithrin a hybu meddwl beirniadol a datrys problemau, a braf gweld rhai o'n staff – Hunar a Luke – yn cyfranogi ar ran y Bwrdd Iechyd.

Dathlu CAVHIS a'i bartneriaid gwerthfawr

Fis diwethaf, bu Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd Caerdydd a'r Fro (CAVHIS) yn dathlu un flwyddyn ers sefydlu'r gwasanaeth a'i bartneriaeth â'r Groes Goch Brydeinig.



Mae CAVHIS yn cynnig gwasanaeth sgrinio iechyd y cyhoedd, gofal iechyd a chymorth tymor byr i unigolion sy'n agored i niwed sy'n ei chael hi'n anodd cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd. Mae'r grwpiau hyn o unigolion yn cynnwys pobl sy'n ceisio

lloches sydd newydd gyrraedd Caerdydd, y rhai sy'n ymwneud â rhaglenni adsefydlu ffoaduriaid, unigolion y mae gwaith rhyw yn effeithio arnynt, pobl ddigartref a'r rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at feddyg teulu yn yr ystyr draddodiadol oherwydd ymddygiad treisgar neu ymosodol.

Gydag uchelgais allweddol i leihau rhwystrau rhag cael mynediad at ofal iechyd ar gyfer y grwpiau cleifion hyn, mae CAVHIS wedi cefnogi dros 2,300 o gleifion yn y flwyddyn ddiwethaf ac mae ei bartneriaid yn y Groes Goch Brydeinig wedi derbyn 241 o atgyfeiriadau gan y tîm.

Gan ddarparu cymorth amhrisiadwy i'r grwpiau cleifion y mae CAVHIS yn gweithio gyda nhw, mae'r Groes Goch Brydeinig yn helpu cleifion y tu hwnt i ofal iechyd gyda phethau fel cynnig cymorth lloches, addysg a hyfforddiant, integreiddio cymunedol ac atgyfeiriadau iechyd meddwl.

Pen-blwydd hapus yn un flwydd oed CAVHIS, a diolch i chi am y gwaith rydych chi'n ei wneud i wella a chodi proffil iechyd a lles unigolion sydd â'r canlyniadau iechyd gwaethaf ac sy'n profi'r rhwystrau mwyaf o ran cael mynediad at ofal.

Y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn dathlu ei 5ed pen-blwydd

Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) Caerdydd a'r Fro yn dathlu pum mlynedd o gefnogi oedolion awtistig a'u gofalwyr yn ein rhanbarth. Maent yn cynnig gwasanaethau diagnostig a chymorth ac yn gweithio gyda gwasanaethau prif ffrwd i wella eu sgiliau a'u gwybodaeth wrth weithio gyda phobl awtistig.

Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS) Caerdydd a'r Fro yn wasanaeth awtistiaeth arbenigol amlasiantaeth gyda staff o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd, a Chyngor Bro Morgannwg. Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol, a'r trydydd sector. Sefydlwyd y gwasanaeth ar ôl derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ledled Cymru.



Fel rhan o'r dathliadau, gofynnwyd i'r tîm esbonio pam eu bod yn gwerthfawrogi gweithio yn y gwasanaeth ac mae'r enghraifft ganlynol yn dangos pwysigrwydd y gwasanaeth mewn gwirionedd; "Mae gweithio gyda phobl awtistig wedi gwneud i mi ddeall, derbyn ac annog gwahaniaeth, yn y gwaith ac yn fy mywyd personol. Mae'n fy atgoffa'n barhaus i feddwl am ffyrdd eraill o edrych ar sefyllfa ac rwy'n meddwl ein bod yn freintiedig i gael gweithio gyda grŵp mor anhygoel o bobl."

Y tîm Cyflawni Ymchwil ar ei newydd wedd

Ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae astudiaethau ymchwil yn cael eu cynnal bob dydd i wella gofal a thriniaeth cleifion.

Un o'r adrannau sy'n cynnal yr ymchwil arloesol hon yw'r Tîm Cyflawni Ymchwil sy'n dathlu chwe blynedd o gyflawniadau ers ei sefydlu yn y Bwrdd Iechyd yn 2016.

Yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r tîm arobryn wedi helpu miloedd o gleifion gyda'u gwaith:

- Yn 2016, daeth y Tîm Cyflawni Ymchwil yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan ganolbwyntio ar gynnal treialon clinigol ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Yn 2019, sefydlwyd y tîm ymchwil Obstetreg a Gynaecoleg, ac yn ddiweddarach y flwyddyn honno yn y Cyfleuster Ymchwil, cafodd y claf cyntaf yn y byd ddos o feddyginiaeth fel rhan o dreial diabetes byd-eang newydd.
- Yn 2020, y Tîm Cyflawni Ymchwil oedd y safle cyntaf yn y DU i agor y treial Recovery, gyda dros 39,000 o gleifion yn cymryd rhan er mwyn nodi triniaethau effeithiol ar gyfer SARS-COV-2.
- Yn fwy diweddar, mae'r Tîm Cyflawni Ymchwil wedi cefnogi ymchwil hanfodol i frechlynnau COVID-19 ac ymchwil sy'n dangos ei bod yn ddiogel cael y brechlynnau COVID-19 a fflw ar yr un pryd.
- Ac eleni, fe wnaeth tîm ymchwil Gofal Critigol YAC recriwtio'r claf cyntaf yn y DU ar gyfer treial SEAL Byd-eang 19999.

Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn mae aelodau'r tîm wedi bod yn ymwneud yn weithredol â digwyddiadau codi arian yn ogystal â chael eu henwebu ar gyfer nifer o wobrau mawreddog.

Nawr, mae'r tîm yn nodi eu cerrig milltir ac yn ehangu'r tîm gyda logo, gwefan a thudalennau SharePoint newydd wedi'u hail-frandio.

Dywedodd Sue Figueirido, Pennaeth Cyflawni Ymchwil: "Dros y 6 blynedd diwethaf mae Tîm Cyflawni Ymchwil y Bwrdd Iechyd wedi addasu i gefnogi portffolio ymchwil amrywiol ar draws Byrddau Clinigol lluosog.

"Mae'r tîm wedi cyfrannu at gynyddu'r broses recriwtio cleifion i'r lefel uchaf erioed yn 2021/22. Ymhlith y meysydd sydd wedi gweld cynnydd mewn gweithgarwch ymchwil mae clefydau heintus, endocrin, fasgwlaidd a gerontoleg.

"Wrth edrych i'r dyfodol, mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd. Gweledigaeth y Tîm Cyflawni Ymchwil yw gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod ymchwil yn rhan sylfaenol o safon gofal ar gyfer ein cleifion.

"Er mwyn ein galluogi i gynnig mwy o gyfleoedd i'n cleifion gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil mae angen i'n portffolio ehangu ymhellach, yn ogystal ag agor meysydd newydd i ymchwilio iddynt."

Digwyddiad Arddangos Symud Mwy Bwyta'n Iach

Cynhaliodd Symud Mwy, Bwyta'n Iach ei ddigwyddiad arddangos personol cyntaf fis diwethaf ac roedd yn wych gweld cymaint o bartneriaid o bob rhan o Gaerdydd a Bro Morgannwg yn dod ynghyd i rwydweithio, cysylltu a rhannu arferion gorau.

Gwnaeth ein Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, Fiona Kinghorn groesawu partneriaid i'r digwyddiad yng Nghanolfan Hamdden y Gorllewin, a oedd yn cynnwys Bwyd Caerdydd, Bwyd y Fro, Tîm Byw'n Iach y Fro, Chwaraeon Caerdydd, Pedal Power, Ail-lenwi Cymru a Llywodraeth Cymru.

Rhannodd y Tîm Symud Mwy, Bwyta'n Iach uchafbwyntiau allweddol ar gynnydd, a rhoddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i bartneriaid ar eu Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.



Gwelliannau i'r Amgylchedd yn y Clinig Cyn Geni - Ysbyty Athrofaol Llandochau

Yn ddiweddar, mae tîm Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi cefnogi prosiect i wella amgylchedd y Clinig Cyn Geni yn Ysbyty Athrofaol Llandochau lle mae'r Clinig Enfys hefyd wedi'i leoli. Mae'r Clinig Enfys yn gofalu am fenywod a'u partneriaid sydd, yn drist iawn, wedi colli babi neu fabanod yn ystod beichiogrwydd, neu'n fuan ar ôl genedigaeth.

[Darllenwch fwy am y gwelliannau.](#)

